

YMARFER 13: Sylwadau

Lone working

Working alone carries increased risk because any dangers faced are encountered alone.¹ For example, should a lone working employee become ill, have an accident or suffer an injury there isn't anyone to assist them. Working alone can also make you more vulnerable to violence, theft or antisocial behaviour, as you may be seen as an easier target.²

Different types of employees face different hazards when lone working. NHS staff, social workers and security personnel may face challenging behaviour from the public; estate agents and utility workers have to enter properties alone³ and salespeople can spend a lot of time on the road, putting them at a higher risk of road traffic accidents.⁴ Construction workers, engineers and surveyors are especially vulnerable to accidents or injury on site.⁵

Therefore, lone worker risk assessments must be carried out for each individual job role and environment to ensure that the full picture of risks is understood.⁶

The most commonly cited risk factors employees face in the workplace were outlined in the Health and Safety Executive's (HSE) Health and Safety Statistics Annual Report⁷, which highlighted that the biggest risk factor across all workplaces is 'dealing with difficult customers, patients and pupils'⁸ (65%).

Physical risks – including lifting/moving⁹ (59%¹⁰), chemical/biological substances (52%), repetitive movements and slips (50%) and trips and falls¹¹ (49%) – make up the majority of the other risks listed.¹²

Being a lone worker doesn't increase the likelihood of the majority of the risks outlined above¹³ – but if an incident occurs, there isn't anyone else available to summon help¹⁴.

1. Ystyr/ Cywair

Working alone carries increased risk because any dangers faced are encountered alone.

Cyfieithu aflwyddiannus:

- 1. Mae gweithio ar eich pen eich hun yn cario risg cynyddol oherwydd bod unrhyw beryglon yn cael eu hwynebu ar eich pen eich hun.*
- 2. Mae'r risg yn gynyddol i weithiwr ar ei ben ei hun oherwydd bod y peryglon a wynebir yn cael eu profi ar ei ben ei hun.*
- 3. Mae gweithio ar eich pen eich hun yn fwy peryglus am eich bod*

yn wynebu unrhyw beryglon ar eich pen eich hun.

4. *Mae gweithio ar eich pen eich hun yn dod law yn llaw â mwy o beryglon oherwydd eich bod yn wynebu unrhyw beryglon ar eich pen eich hun*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *Mae gweithio'n unigol yn arwain at fwy o risg oherwydd eich bod yn wynebu unrhyw beryglon ar eich pen eich hun.*
2. *Mae mwy o risg yn gysylltiedig â gweithio'n unigol gan fod unigolion yn wynebu unrhyw beryglon ar eu pennau eu hunain.*
3. *Mae'r risg a wynebir gennych wrth weithio'n unigol yn fwy gan eich bod yn delio ag unrhyw beryglon ar eich pen eich hunan.*

SYLWADAU:

1. Mae'r ddau gyfieithiad aflwyddiannus cyntaf uchod wedi cam gyfieithu 'increased risk' fel 'increasing risk' (risg gynyddol), hynny yw bod y risg yn cynyddu gydag amser, ond nid dyna sydd dan sylw yma. 'Risg uwch', neu *fwy o risg* fyddai'r cyfieithiad cywir o 'increased risk'.

2. Hefyd mae tueddiad cyffredinol i ailadrodd gormod. Byddai modd osgoi ailadrodd 'ar eich pen eich hun' drwy ddefnyddio *gweithio'n unigol* ar y dechrau (ac o bosib yn nes ymlaen yn y darn). Yn sicr dylid osgoi 'gweithio'n unig' ('only working'/'lonely working'). Byddai'n hawdd osgoi ailadrodd y gair 'peryglus/ peryglon' ar gyfer 'risk' a 'danger' drwy ddefnyddio'r gair *risg* ar gyfer 'risk' a *peryglon* ar gyfer 'dangers'. Mewn testun mwy cyffredinol gallai 'perygl'/'menter'/'bygythiad' fod yn dderbyniol wrth gyfieithu 'risk', ond mewn testun penodol lle mae'r darn cyfan yn ymwneud â risgiau, gwell fyddai defnyddio'r gair *risg*. Mae'n derm lled-dechnegol yn y cyd-destun yma.

2. Cywair/ Cywirdeb/

Working alone can also make you more vulnerable to violence, theft or antisocial behaviour, as you may be seen as an easier target.

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *Gall gweithio ar eich pen eich hun eich gwneud yn fwy diamddiffyn i drais, dwyn neu ymddygiad wrth-gymdeithasol, gan efallai i chi ymddangos i fod yn darged haws.*
2. *Hefyd gall gweithio ar eich pen eich hun eich gwneud yn fwy bregus i drais, lladrad neu ymddygiad anghymdeithasol, gan y gallwch gael eich gweld fel rhywun haws i'w dargedu.*
3. *Gall gweithio ar eich pen eich hun hefyd olygu eich bod yn fwy agored i drais, lladrad, neu ymddygiad gwrthgymdeithasol, oherwydd eich bod, o bosib, yn cael eich ystyried fel targed llawer mwy rhwydd.*
4. *Yn ogystal, gall gweithio ar eich pen eich hun eich gwneud yn fwy agored i drais, lladrad neu ymddygiad anghymdeithasol, gyda phobl yn eich ystyried yn gocyn hitio amlwg.*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *Gall gweithio ar eich pen eich hun hefyd olygu eich bod yn fwy*

agored i ddiodef trais, lladrad neu ymddygiad gwrthgymdeithasol, gan y gallech gael eich gweld fel targed haws.

SYLWADAU:

1. Dydy *bregus*, *diamddiffyn* nac *agored* ddim yn eiriau addas ar gyfer cyfleu 'vulnerable' fan hyn. Mae modd disgrifio rhywun fel 'person bregus' neu 'ddiamddiffyn', ond nid fel *person sy'n fregus i...* neu'n *ddiamddiffyn i...*. O ran *agored*, byddai 'agored i ddiodef trais' yn agosach ati. Gall 'agored' wrth ei hun olygu 'bod yn barod i dderbyn' hefyd o bosib.
2. O ran cywirdeb, *ymddygiad gwrthgymdeithasol* yw '**antisocial behaviour**'. Mae 'ymddygiad' yn air gwrywaidd, felly does dim angen treiglo. Does dim angen cysylltnod chwaith. Ystyr *anghymdeithasol* yw 'unsociable', felly nid yw'n gyfieithiad priodol yn y cyd-destun hwn.
3. Braidd yn dafodieithol yw *cocyn hitio* fel cyfieithiad o '**target**'. Byddai *targed* wedi bod yn dderbyniol, a *tharged haws* fyddech chi, nid 'targed *amlwg*'.

3. Ystyr

...estate agents and utility workers have to enter properties alone...

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *...rhaid i asiantiaid gwerthu tai a gweithwyr sy'n arlwygo gwasanaeth fynychu eiddo ar eu pennau eu hunain...*
2. *...mae gofyn i werthwyr tai a gweithwyr o wasanaethau megis nwy a thrydan fynd i mewn i dai ar eu pennau eu hun...*
3. *...mae'n rhaid i werthwyr tai a gweithwyr lles fynd i mewn i eiddo ar eu pennau eu hunain...*
4. *...rhaid i asiantwyr tai a gweithwyr gwasanaethau fynd i mewn i eiddo wrth eu hunain...*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *...rhaid i werthwyr tai a gweithwyr cyfleustodau fynd i mewn i eiddo wrth eu hunain...*

SYLWADAU:

1. *Gweithwyr cyfleustodau* yw '**utility workers**' – hynny yw gweithwyr nwy, trydan, band eang ac ati. Mae *gweithwyr lles* yn golygu 'welfare workers' sy'n hollol wahanol o ran ystyr. Mae *gweithwyr sy'n arlwygo gwasanaethau* hefyd yn eiriad amhriodol. Er nad yw 'gweithwyr gwasanaethau' a 'gweithwyr gwasanaethau megis nwy a thrydan' yn anghywir o ran ystyr, mae'r gair 'gwasanaethau' wrth ei hun yn rhy eang ei gwmpas, ac mae'r gair 'cyfleustodau' yn ffordd syml o gyfleu'r ystyr.
2. Mae *mynychu* yn golygu mynd i rywle yn gyson, e.e. mynychu ysgol bob dydd neu fynychu capel bob wythnos. Byddai *fynd i mewn i eiddo* yn agosach ati fan hyn.
3. O ran cystrawen, 'ar eu pennau eu hunain' neu 'ar eu pen eu hunain' fyddai'n gywir, nid *ar eu pennau eu hun* (Afl.2).

4. **Cywair** ...salespeople can spend a lot of time on the road, putting them at a higher risk of road traffic accidents.
- Cyfieithu aflwyddiannus:
1. *...gall gwerthwyr nwyddau wario lot o amser ar y lôn, sydd yn eu rhoi mewn risg uwch o gael damweiniau ffordd.*
- Cyfieithu llwyddiannus:
1. *...gall gwerthwyr nwyddau dreulio llawer o amser ar y ffordd, gan olygu bod mwy o risg iddynt gael damwain.*
- SYLWADAU:
1. Byddai *treulio llawer o amser* 'treulio cryn dipyn o amser' yn gyfieithiad mwy naturiol yn y Gymraeg. Yng nghyd-destun arian, 'gwario' yw 'spend' ond yng nghyd-destun amser, *treulio* yw'r gair cywir.
 2. Mae *ar y lôn* braidd yn dafodieithol yn y cyd-destun hwn.
5. **Cywair** **Construction workers, engineers and surveyors are especially vulnerable to accidents or injury on site.**
- Cyfieithu aflwyddiannus:
1. *Yn achos adeiladwyr, peirianwyr a syrfewyr mae'r perygl o gael damwain neu anaf ar y safle yn risg gwirioneddol.*
 2. *Mae adeiladwyr, peirianwyr a syrfewr yn arbennig o agored i ddamweiniau neu anafiadau ar y safle gwaith.*
 3. *Mae gweithwyr adeiladu, peirianwyr a thirfesurwyr yn neilltuol o agored i ddamweiniau ac anafiadau ar leoliadau.*
- Cyfieithu llwyddiannus:
1. *Mae adeiladwyr, peirianwyr a syrfewyr mewn perygl arbennig o ddiodef damweiniau neu anafiadau ar safleoedd adeiladu.*
- SYLWADAU:
1. O ran 'sites', byddai'r ystyr yn gliriach yn Gymraeg drwy ychwanegu y gair 'adeiladu' (safle adeiladu) er bod 'site' yn cyfleu hynny wrth ei hun yn Saesneg. Ystyr *leoliadau* yw 'locations', sy'n gyfieithiad rhy llac.
 2. Mae *syrfewyr* yn air digon derbyniol yn Gymraeg. Mae *adeiladwyr* yn fwy naturiol na *gweithwyr adeiladu*.
 3. Sylwch hefyd y dylid sicrhau cysondeb o ran y defnydd o'r unigol neu'r lluosog mewn rhestr – *adeiladwyr, peirianwyr a syrfewyr*. Camgymeriad a welir yn aml yw cynnwys un enw unigol yng nghanol rhestr o enwau lluosog (neu i'r gwrthwyneb) - Afl.2.
6. **Cywair** **Therefore, lone worker risk assessments must be carried out for each individual job role and environment to ensure that the full picture of risks is understood.**

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *Felly rhaid cyflawni asesiadau risg ar gyfer gweithwyr unigol yn achos pob swydd a phob lleoliad er mwyn sicrhau y gellir cyrraedd dealltwriaeth lawn o'r risgiau.*
2. *Mae angen, felly, i asesiadau risg gweithwyr sy'n gweithio ar eu pennau eu hunain gael eu cynnal ar gyfer pob swydd ac amgylchedd unigol er mwyn sicrhau y deallir darlun llawn y risgiau.*
3. *Mae'n bwysig felly bod asesiadau risg gweithwyr unigol yn cael eu cwblhau ar gyfer pob swydd ac amgylchedd benodol i sicrhau fod darlun cyflawn o risg wedi ei ddeall.*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *O ganlyniad, rhaid cynnal asesiadau risg ar gyfer pawb sy'n gweithio ar eu pennau eu hunain gan asesu pob rôl ac amgylchedd unigol, er mwyn sicrhau dealltwriaeth lawn o bob risg.*
2. *Felly, mae'n rhaid cynnal asesiadau risg ar gyfer gweithio ar eich pen eich hun ymhob un swyddogaeth a sefyllfa er mwyn sicrhau bod yna ddealltwriaeth drylwyr o'r holl risgiau.*

SYLWADAU:

1. Roedd y paragraff hwn yn anodd ei gyfieithu yn dwt.
2. *Rhaid cynnal asesiadau risg* yw '**risk assessments must be carried out**' - mae'r gair *rhaid* yn fwy pendant na *Mae'n bwysig* ar gyfer cyfleu '**must**', ac mae'r geiriad *cynnal asesiad risg* yn fwy naturiol na *cyflawni*. Yn Afl.2 uchod mae *gael eu cynnal* yn rhy bell oddi wrth *asesiadau risg*. Gwell fyddai dechrau'r frawddeg â *Felly, mae'n rhaid cynnal asesiadau risg ar gyfer...*
3. Dydy *sicrhau y gellir cyrraedd dealltwriaeth lawn o'r risgiau* ddim yn llifo'n rhwydd. Byddai 'i sicrhau bod yna ddealltwriaeth drylwyr o'r holl risgiau' yn ffordd o osgoi ymadrodd chwithig fel *cyrraedd dealltwriaeth* (Afl.1).
4. Mae *i sicrhau fod darlun cyflawn o risg wedi ei ddeall* yn glynu yn rhy dynn at y Saesneg (Afl.3).

7. **Cystrawen/
Ystyr**

**Health and Safety Executive's (HSE) Health and Safety
Statistics Annual Report**

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *Adroddiad Blynyddol yr Adran Weithredol ar gyfer lechyd a Diogelwch ac Ystadegau lechyd a Diogelwch*
2. *Adroddiad Ystadegau Blynyddol ar lechyd a Diogelwch Yr Awdurdod Gweithredol lechyd a Diogelwch*
3. *Adroddiad Blynyddol Ystadegau lechyd a Diogelwch y Gweithredwr lechyd a Diogelwch (GID)*
4. *Adroddiad Blynyddol yr Awdurdod Gweithredol lechyd a Diogelwch (HSE), Ystadegau lechyd a Diogelwch*
5. *Adroddiad Blynyddol Ystadegau lechyd a Diogelwch Pwyllgor*

Gweithredu Iechyd a Diogelwch (HSE)

6. *Adroddiad Blynyddol Ystadegau Iechyd a Diogelwch Swyddog Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE)*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *Adroddiad Blynyddol Ystadegau Iechyd a Diogelwch yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch*
2. *Adroddiad Blynyddol yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ar Ystadegau Iechyd a Diogelwch*

SYLWADAU:

1. Enw cywir yr HSE yn Gymraeg yw *Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch*. Ond sylwch mai corff yw'r HSE, nid swydd (felly mae *Swyddog Gweithredol* yn gamgyfieithiad).
2. Ystyr y cymal yw adroddiad ystadegau blynyddol gan yr Awdurdod Iechyd a Diogelwch. Mae'r geiriad *Adroddiad Ystadegau Blynyddol ar Iechyd a Diogelwch yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch* ychydig yn lletchwith, er bod yr ystyr yn gywir. Byddai'n well i'r geiriau 'Adroddiad' a 'Blynyddol' fod gyda'i gilydd, a'r gair 'Ystadegau' fod ar bwys 'Iechyd a Diogelwch'. Hefyd sylwch nad oes angen priflythyren ar 'yr' (Afl.2).

8. Ystyr **'dealing with difficult customers, patients and pupils'**

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *delio gyda chwsmeriaid anodd, cleifion a disgyblion*
2. *trin cwsmeriaid annifyr, cleifion a disgyblion*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *delio â chwsmeriaid, cleifion a disgyblion anodd*
2. *ymdrin â chwsmeriaid, cleifion a disgyblion anodd*

SYLW:

1. Mae '**difficult**' yn cyfeirio at y cwsmeriaid, y cleifion a'r disgyblion, felly yn Afl.1 mae'r gair *anodd* yn y lle anghywir yn y frawddeg. Mae *annifyr* hefyd yn gyfieithiad amhriodol o '**difficult**'. Gall pobl fod yn 'anodd' ('difficult') heb fod yn 'annifyr' ('unpleasant').

9. Ystyr/
Cywirdeb **...including lifting/moving...**

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *gan gynnwys codi/symud*
2. *yn cynnwys codi/symud*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *gan gynnwys codi/symud pwysau*

SYLWADAU:

1. Codi/symud beth? Yn Gymraeg, mae *codi/symud* yn rhoi'r argraff mai'r person sy'n codi o'r gadair neu o'r gwely, ac yn symud ei hun! I gyfleu ystyr y Saesneg ('**lifting/moving**') mae angen ychwanegu gair, e.e. *codi/symud pwysau*.

2. Hefyd *gan gynnwys* yw'r geiriad cywir ar gyfer '**including**'. Mae *yn cynnwys* yn golygu 'includes'. Er enghraifft: mae'r llyfr yn cynnwys ('includes') pennod ar hanes Cymru / mae'r llyfr yn cynnwys sawl pennod, gan gynnwys ('including') un ar hanes Cymru.

**10. Ystyr/
Cywirdeb**

59%

Sylwch bod angen gwirio unrhyw ffigurau/canrannau sydd yn y darn yn ofalus tu hwnt. Mae camgymeriadau gyda'r ffigurau yn codi'n rhyfeddol o gyson, ac yn gallu effeithio ar yr ystyr.

**11. Cywair/
Cywirdeb**

...trips and falls...

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *bagladau a chodymau*
2. *baglu a thripio*
3. *teithiau a chwympiadau*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *baglu a chwympo*
2. *baglu a disgyn*

SYLW:

1. Mae'n well defnyddio berfenw yn hytrach nag enwau lluosog wrth gyfieithu '**slips... trips and falls**'. Syrthio/cwmpo/d disgyn/ cael codwm yw '**fall**', nid *tripio* (Afl.2). Mae Afl.3, sef *teithiau a chwympiadau* yn gamgyfieithiad llwyr o '**trips**'. Gall camgymeriad fel hyn newid yr ystyr yn llwyr ac mae'n dangos pwysigrwydd prawfddarllen gwaith yn ofalus.

12. Cystrawen

Physical risks... make up the majority of the other risks listed.

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *Mae risgiau corfforol... yn cyfrif am y rhan fwyaf o'r risgiau eraill a gafodd eu rhestru.*
2. *Mae risgiau corfforol... yn gyfrifol am y mwyafrif o'r risgiau eraill a restrir*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *Risgiau corfforol... yw mwyafrif y risgiau eraill a restrir*

SYLW:

1. Cystrawen fwy naturiol fyddai *Risgiau corfforol... yw mwyafrif y*

risgiau eraill... Weithiau mae'n anodd gweld llif y frawddeg os oes is-gymal yn torri ar ei draws, fel y gwelir fan hyn. Mae'n bwysig darllen dros eich cyfieithiad gan hepgor yr is-gymal, er mwyn gwneud yn siŵr bod y brif frawddeg yn llyfn ac yn naturiol.

13. Cystrawen/ Ystyr **Being a lone worker doesn't increase the likelihood of the majority of the risks outlined above...**

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *Nid yw bod yn weithiwr unigol yn cynyddu'r tebygolrwydd o'r rhan fwyaf o'r risgiau a amlinellir uchod*
2. *Nid yw gweithio'n unigol yn gwneud y rhan fwyaf o'r risgiau a amlinellir uchod yn fwy*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *Nid yw bod yn weithiwr unigol yn cynyddu tebygolrwydd y mwyafrif o'r risgiau a amlinellwyd uchod*
2. *Nid yw gweithio ar eich pen eich hun yn golygu bod y rhan fwyaf o'r peryglon a amlinellwyd uchod yn fwy tebygol o ddigwydd*

SYLWADAU:

1. O ran cystrawen, 'cynyddu tebygolrwydd y rhan fwyaf o'r risgiau' sy'n gywir, nid *cynyddu'r tebygolrwydd o'r rhan fwyaf o'r risgiau*.
2. Mae Afl.2 yn wallus o ran ystyr, gan ei fod yn hepgor y gair *tebygolrwydd*. Dyma'r math o gamgymeriad ystyr y gellir ei osgoi drwy fod yn effro wrth wirio - mae gweddill y darn wedi bod yn pwysleisio bod mwy o risg i bobl sy'n gweithio wrth eu hunain, a'r frawddeg wallus hon yn gwrth-ddweud hynny'n uniongyrchol.

14. Cywair **...but if an incident occurs, there isn't anyone else available to summon help.**

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *...ond os ydy rhywbeth yn digwydd nid oes unrhyw un arall ar gael i fynd i nôl help.*
2. *...ond pe bai damwain yn digwydd, does yna neb arall wrth law a allai alw am help.*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *...ond pe bai rhywbeth yn digwydd, ni fyddai unrhyw un arall ar gael i alw am gymorth.*

SYLWADAU:

1. Mae *i fynd i nôl help* yn rhy anffurfiol. Byddai'n well dweud *i alw am gymorth*.
2. O ran cystrawen, mae angen bod yn gyson: *pe bai...ni fyddai*.